Electrical Safety First

Arbenigwyr diogelwch trydanol y DU

Diogelwch trydanol yn y cartref

# Canllaw ar gyfer **pobl hŷn a'u perthnasau**



electricalsafetyfirst.org.uk

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Yr hanfodion | 4 |
| 3 | Defnyddio trydan yn y cartref | 6 |
| 4 | Gofalu amdanoch chi neu eich anwyliaid | 10 |
| 5 | Cadw'n gynnes | 11 |
| 6 | Gwneud y gwaith | 12 |
| 7 | Cysylltiadau defnyddiol | 13 |

# 1 Cyflwyniad

**Gall trydan ladd. Bob blwyddyn, caiff tua 350,000 o bobl eu hanafu'n ddifrifol a chaiff 70 o bobl eu lladd oherwydd damwain drydanol yn y cartref.**

Mae trydan hefyd yn achosi mwy na 20,000 o danau'r flwyddyn mewn tai - dyna bron i hanner yr holl danau mewn tai damweiniol. Gall pobl hŷn neu bobl agored i niwed fod mewn mwy o berygl oherwydd eu bod yn aml yn byw mewn hen dai neu dai o ansawdd gwael sydd ag offer trydanol diffygiol neu hen gyfarpar.

Mae Diogelwch Trydanol yn Gyntaf yn Elusen y DU sy'n ymroddedig i leihau anafiadau a marwolaethau a achosir gan drydan. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn y DU yn gallu defnyddio trydan yn ddiogel.

Y newyddion da yw, drwy gynnal rhai gwiriadau gweledol syml ar eich trydanwaith a dysgu sut i ddefnyddio'ch cynnyrch yn ddiogel, gellir osgoi llawer o risgiau.

Mae'r cyngor yn y daflen hon yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o offer trydanol diffygiol a syniadau garddio, i ddod o hyd i drydanwr cymwys ac i aros yn gynnes yn eich eiddo. Mae'r canllaw hwn ar gyfer pob perchennog tai, tenant neu landlord, yn ogystal ag unrhyw un sy'n pryderu am ddiogelwch cymydog neu berthynas. Rydym yn gwybod y gall rhai pobl sy'n agored i niwed fod yn fwy agored i ddamweiniau trydanol, ac felly, yn ogystal ag adran ar ofalu am y rhai o'ch cwmpas, mae cyfeirlyfr defnyddiol ar gael hefyd ar y diwedd pe bai angen rhagor o wybodaeth arnoch.

**Rydym yn gobeithio y bydd y daflen hon yn helpu i'ch cadw chi a'ch anwyliaid yn ddiogel gartref.**

# 2 Yr hanfodion

**Ydych chi'n gwybod pan gafodd y trydanwaith yn eich tŷ eu gwirio ddiwethaf? Os mai chi sy'n berchen ar yr eiddo rydych yn byw ynddo, rydym yn argymell eich bod yn cael profi eich trydanwaith yn llwyr bob deng mlynedd, a phob pum mlynedd ar gyfer cartrefi rhent. Mae hefyd yn syniad da cael prawf arnyn nhw pan fyddwch chi'n symud i mewn i eiddo yn y lle cyntaf, dim ond rhag ofn.**

## 1 1 Gwiriwch eich bocs ffiwsys:

### Beth mae'n edrych fel?

Mae eich bocs ffiwsys yn rheoli'r trydanwaith yn eich cartref ac felly mae'n bwysig ei fod yn gweithio'n ddiogel. Dylai pob bocs ffiwsys gynnwys prif switsh, ffiwsys a/neu dorwyr cylched. Ni ddylai'r bocs ffiwsys gael cefn pren, switshis haearn bwrw neu edrych fel cymysgedd o wahanol focsys ffiwsys. Os bydd eich torwyr cylched yn chwythu'n rheolaidd, yna mae'n werth cael eu harchwilio gan drydanwr cofrestredig.




*Bocs Ffiwsys gyda DCG yn rhan ohono.*

### Oes ganddo Ddyfais Cerrynt Gweddilliol?

Mae Dyfais Cerrynt Gweddilliol (DCG) yn ddyfais achub bywyd sy'n torri pŵer os oes damwain a gall eich atal rhag cael sioc drydanol angheuol.

Ddim yn gwybod a oes gennych DCG ai peidio? Peidiwch â phoeni, mae ffordd hawdd iawn o wirio hyn: dewch o hyd i'r botwm profi 'Test' neu 'T' a phwyswch y botwm. Os oes gennych DCG sy'n gweithio'n iawn, bydd pwyso arno'n diffodd y pŵer i'r rhannau o'r cartref y mae'n eu diogelu. Os nad oes gennych DCG yn eich bocs ffiwsys neu os nad yw'n gweithio, yna dylech ddefnyddio DCGau plygio unigol ar gyfer yr holl socedi yn eich cartref. Felly, profwch eich DCG heddiw! Os ydych chi'n ansicr neu'n methu dod o hyd i'r botwm prawf, yna gofynnwch i berthynas neu gymydog ei wirio i chi.




*DCG wedi'i phlygio'n unigol i ddarparu amddiffyniad ar gyfer dyfais sengl.*

## 2 Archwiliwch eich plygiau a socedi:

A oes gan eich tŷ socedi pin crwn, ceblau defnydd plethedig sy'n hongian o ffitiadau goleuadau'r nenfwd neu socedi wedi'u gosod yn y sgyrtin? Os felly, efallai bod eich bocs ffiwsys dros 50 oed ac mae angen eu gwirio a'u diweddaru. Ni ddylai plygiau a socedi bod wedi'u difrodi, yn arddangos marciau llosgi, gwneud sŵn clecian neu'n amlwg yn gorboethi. Er tawelwch meddwl, rydym yn argymell gofyn i drydanwr cofrestredig gynnal Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol, neu 'EICR', (a elwid gynt yn Adroddiad Archwiliad Cyfnodol, neu PIR).

Am fwy o wybodaeth am Adroddiadau EICR ac am gyngor ar sut i ddod o hyd i drydanwr cymwys, **gweler adrannau 6 a 7.**







*Enghreifftiau nodweddiadol o osodiadau trydanol a allai fod yn beryglus*

## 3 Gwiriwch eich ffitiadau goleuadau:

Fel gyda phlygiau a socedi, dylai unrhyw achos o orboethi, megis labeli wedi'u cyrlio, dadliwio neu losgi, fod yn arwydd rhybudd. Os gwelwch unrhyw arwyddion cracio neu losgi o amgylch y ffitiadau goleuadau, rhowch y gorau i'w defnyddio ar unwaith a chael trydanwr cofrestredig i'w harchwilio.

## 4 Gwiriwch eich ceblau:

Dylai ceblau fod mewn cyflwr da heb unrhyw arwyddion o ddifrod, cracio neu hollti, a dylent fod wedi'u hamgáu mewn gorchudd PVC. Archwiliwch geblau eich offer i wneud yn siŵr eu bod mewn cyflwr da, gyda'r cebl wedi'i gysylltu'n ddiogel â'r offer a'r plwg. Mae toriadau, difrod neu arwyddion o ôl traul ormodol yn golygu y bydd angen adnewyddu'r cebl neu'r plwg.

Ceisiwch osgoi taenu ceblau ar draws y llawr neu o dan garpedi a rygiau, gan y gall hyn fod yn berygl baglu.

# 3 Defnyddio trydan yn y cartref

**Trydan a chamddefnyddio offer trydanol yw un o brif achosion tanau damweiniol yng nghartrefi Prydain. Gellir dod o hyd i rai o'r risgiau trydanol mwyaf yn y gegin, yr ystafell ymolchi a'r ardd.**

**Dilynwch y cyngor yn y llyfryn hwn i gadw'n ddiogel o amgylch y cartref.**

## Diogelwch yn y gegin:

Mae'r rhan fwyaf o danau trydanol yn dechrau yn y gegin, felly mae'n hanfodol bod gofal ychwanegol yn cael ei gymryd wrth ddefnyddio offer trydanol, bod yr holl gyfarpar ac arwynebau'n cael eu cadw'n lân a thaclus a bod yr holl offer trydanol yn cael eu gosod yn gywir. Yn benodol:

- Dylid gosod socedi a switshis o bellter diogel (o leiaf 30cm yn llorweddol) o sinciau neu ffyrnau er mwyn atal y switsh, y soced a'r cebl rhag bod yn agored i sblasio neu dymheredd uchel
- Gofalwch fod gan yr offer sefydlog, fel oergelloedd a pheiriannau golchi, switsh troi ymlaen/diffodd sy'n hawdd i'w gyrraedd
- Peidiwch â gadael offer trydanol mawr, fel peiriannau golchi a pheiriannau sychu llestri'n rhedeg pan fyddwch allan o'r tŷ neu dros nos

## Diogelwch yn yr ystafell ymolchi:

Mae dŵr yn dargludo trydan, felly pan fydd y ddau yn cymysgu, gall y canlyniad ladd. Felly, rhaid i unrhyw drydanwaith yn yr ystafell ymolchi gael ei wneud gan drydanwr cofrestredig a dylid ystyried y gofynion arbennig canlynol:

- Mae'n anarferol gosod soced prif gyflenwad mewn ystafell ymolchi ond os oes un, dylai fod o leiaf dri metr oddi wrth y baddon neu'r gawod
- Dylai'r holl ffitiadau goleuadau fod yn gaeedig ac allan o gyrraedd unrhyw ddwylo gwlyb
- Oherwydd lleithder a dwylo gwlyb, mae switsh tynnu cortyn wedi'i osod ar y nenfwd yn well na switsh golau ar y wal
- Rhaid i wresogyddion dŵr trydan a nwy mewn ystafell ymolchi fod yn sefydlog ac wedi'u gwifro'n barhaol, oni bai eu bod wedi'u pweru gan soced sydd wedi'i osod tri metr o faddon neu gawod

**Peidiwch byth â dod â pheiriannau trydanol cludadwy sy'n cael eu pweru o'r prif gyflenwad, fel sychwyr gwallt, gwresogyddion neu radios, i mewn i ystafell ymolchi.**

## Diogelwch yn yr awyr agored:

Mae llawer o ddamweiniau gardd yn ganlyniad i drin offer yn ddiofal, diffyg canolbwyntio neu fethiant i ddilyn cyfarwyddiadau gweithredu'r gwneuthurwr. Gall y cynghorion syml hyn eich helpu i osgoi damwain ddifrifol:

- Rhaid i socedi a ddefnyddir i gyflenwi offer trydanol yn yr awyr agored gael eu gwarchod gan DCG, yn eich blwch ffiwsys os yn bosibl. Os nad yw hyn yn bosib, defnyddiwch DCG plygio unigol neu gosodwch soced sydd ag un wedi'i chynnwys yn barod
- Gallai torri drwy gebl peiriant trimio neu drimiwr perthi eich lladd. Byddwch yn ofalus pan fyddwch yn gweithio yn yr ardd ac yn ymwybodol o ble mae'r ceblau. Rhaid i offer sy'n cael ei bweru o'r prif gyflenwad neu offer garddio gael eu diogelu gan DCG
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwisgo esgidiau synhwyrol wrth weithio y tu allan – gall esgidiau â sodlau rwber leihau difrifoldeb damwain
- Rhaid i'r gwifrau ymestyn, y ceblau a'r cysylltiadau fod yn addas i'w defnyddio yn yr awyr agored. Dylent allu gwrthsefyll y tywydd gyda chysylltiadau sydd wedi'u mowldio er mwyn atal lleithder rhag treiddio i mewn

**Cyngor diogelwch cyffredinol:**

- Dadblygiwch offer cyn i chi geisio gwneud unrhyw waith cynnal a chadw arnynt
- Peidiwch byth â drilio na thrwsio hoelion mewn waliau heb wybod beth sydd y tu ôl iddynt – gall waliau a pharwydydd cuddio ceblau trydanol a phibellau nwy a dŵr
- Peidiwch byth â gorlwytho cebl estyniad drwy blygio offer i mewn sy'n mynd y tu hwnt i uchafswm y sgôr gyfredol a nodir ar gyfer y cebl. Gallai hyn wneud i'r plwg yn y soced waliau i orboethi ac o bosibl yn achosi tân. Defnyddiwch ein cyfrifiannell soced i wirio os ydych yn fwy na'r uchafswm llwyth: **www.electricalsafetyfirst.org.uk/overloadingsockets**



# 3 Defnyddio trydan yn y cartref *parhad*

**Mae mwy na hanner yr holl danau mewn tai yn cael eu hachosi gan ddamweiniau trydanol, gyda'r rhan helaeth yn cael ei achosi gan offer, felly mae'r risg a berir gan gynnyrch trydanol diffygiol, megis eitemau wedi'u had-alw neu nwyddau ffug, yn enfawr.**

## Cynhyrchion wedi'u had-alw:

Cafodd dros 4 miliwn o gynhyrchion cartref eu had-alw gan weithgynhyrchwyr yn y pedair blynedd diwethaf ac mae gan y rhan fwyaf o'r rhain ddiffygion sy'n cynnwys risg o dân neu sioc drydanol. Ond mae'n bosibl bod y rhan fwyaf o'r rhain dal i fod yng nghartrefi'r DU, gan mai dim ond 10-20% yw'r gyfradd lwyddo ar gyfer adalw cynnyrch trydanol.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn galw i gof adalw cynhyrchion ag eitemau mwy, fel oergelloedd, ffyrnau a pheiriannau golchi. Ond gall eitemau llai hefyd beri risg i ddiogelwch. Mewn gwirionedd, yr eitemau trydanol yr adroddwyd amlaf fel eu bod yn ddiffygiol neu'n beryglus yw'r rhai llai, fel gwefrwyr, sychwyr gwallt, tostwyr a thegellau.



**Rydym yn eich cynghori i ddilyn y camau syml hyn: -**

- Sicrhewch ddiogelwch eich holl offer trydanol drwy ddefnyddio'r gwirydd cynnyrch ar-lein am ddim Diogelwch Trydanol yn Gyntaf. Nodwch rif y model, enw'r brand neu ddisgrifiad o'ch cynnyrch i weld a yw eich cynnyrch wedi cael ei adalw. Os ydyw, fe'ch cynghorir wedyn ar y camau nesaf. Ewch i **www.electricalsafetyfirst.org.uk/recall**
- Pryd bynnag y byddwch chi'n prynu eitem drydanol, y peth cyntaf y dylech chi ei wneud yw ei gofrestru gyda'r gwneuthurwr, gan mai dyma'r ffordd hawsaf iddyn nhw gysylltu â chi pe bai problem
- Cadwch lygad allan ar gyfer adalw hysbysiadau a gweithredwch ar y wybodaeth ar unwaith. Mae gweithgynhyrchwyr yn ceisio cyrraedd eu cwsmeriaid mewn sawl ffordd, gan gynnwys posteri mewn siopau, hysbysebion mewn papurau newydd, negeseuon e-bost, llythyron, ac ar gyfryngau cymdeithasol

# Nwyddau ffug:

Mae nwyddau trydanol ffug bron bob amser yn cynnwys darnau anghywir neu ddiffygiol sy'n gallu gorgynhesu neu dorri dim ond diwrnodau ar ôl eu prynu, gan gynyddu'r risg o dân, sioc ddifrifol neu hyd yn oed trydanladdiad.

Yn anffodus, mae wedi dod yn fwyfwy anodd adnabod nwyddau ffug gan fod yr argraffu ar becynnu wedi mynd yn fwy soffistigedig, sy'n golygu eu bod yn mynd yn fwyfwy anodd eu gweld. Y ffordd orau o'ch diogelu eich hun rhag nwyddau is-safonol a ffug yw prynu eich cynnyrch trydanol oddi wrth fanwerthwyr cyfrifol ar y stryd fawr.

**Dilynwch y cynghorion syml hyn i adnabod nwyddau ffug:**

- Byddwch yn ofalus o unrhyw eitem sy'n llawer rhatach nag yr oeddech yn ei ddisgwyl. Os yw bargen yn edrych yn rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg mai dyna yw'r gwir
- Gwiriwch fod y nodyn pecynnu yn edrych yn ddilys. A yw'r eitem yn dod gyda chyfarwyddiadau a gwarant?
- Chwiliwch am ddifrod pan fyddwch yn cyrraedd adref, yn enwedig ffitiadau llac neu sydd wedi torri neu wifrau wedi darnio
- Gwiriwch fod gan yr eitem plwg y DU a'ch bod yn adnabod gwlad y gwneuthuriad gwreiddiol
- Am fwy o wybodaeth ac awgrymiadau ewch i **www.electricalsafetyfirst.org.uk/safeshopping**

**Os ydych yn amau bod cynnyrch yn beryglus i'w ddefnyddio, neu os yw'n gopi ffug o frand adnabyddus, dylech gysylltu â'ch Swyddfa Safonau Masnach leol neu Gyngor ar Bopeth ar unwaith. Os oes gennych unrhyw amheuon am ddiogelwch y cynnyrch, neu os ydych o'r farn ei fod yn ffug, peidiwch â'i ddefnyddio.**

**Y nwyddau trydanol y nodwyd eu bod yn ddiffygiol neu'n beryglus amlaf yw:**

- Cyfarpar gwefru trydanol
- Addasyddion, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir ar gyfer teithio
- Ceblau cynnyrch ymestyn a sbâr
- Sychwyr gwallt, gefeiliau a sythwyr
- Offer cegin bach fel tegellau, tostwyr a haearnau smwddio



# 4 Gofalu amdanoch chi neu eich anwyliaid

**Dengys ein hymchwil fod miliwn o bobl dros 75 yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn addas nac yn ddigon cynnes, maent mewn cyflwr gwael neu nad oes ganddynt gyfleusterau modern. Anaml iawn y mae'r cartrefi hyn yn bodloni safonau diogelwch trydanol sylfaenol, ac nid ydynt yn cynnwys dyfeisiadau arbed bywyd megis bocs ffiwsys modern, torwyr cylched a gwifrau PVC.**

Os ydych chi'n byw mewn hen eiddo neu os ydych chi'n poeni am gymydog neu berthynas hŷn, mae rhai pethau syml y gallwch eu gwneud:

- **Cynhaliwch archwiliad trydan llawn.** Os yw'r eiddo dros 50 oed ac nad yw ei drydanwaith wedi cael ei wirio yn ystod y deng mlynedd diwethaf, gofynnwch i drydanwr cofrestredig wneud Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol, neu EICR, (a elwid gynt yn Adroddiad Archwiliad Cyfnodol, neu PIR)
- **Gwiriwch y larwm mwg.** Dylai pob eiddo fod â larwm mwg sy'n gweithio, a dylid newid batris bob blwyddyn. Gallwch roi prawf ar y larwm mwg drwy wasgu'r botwm profi - 'Test'. Os nad oes larwm mwg, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol
- **Cofrestrwch ar gyfer y gofrestr blaenoriaeth.** Dylai pobl hŷn ofyn i'w darparwr ynni eu hychwanegu at y gofrestr gwasanaeth blaenoriaeth, sy'n golygu eu bod yn gymwys i gael gwasanaeth bilio wedi'i deilwra, darlleniadau mesurydd am ddim, a chyfleusterau amgen ar gyfer coginio a gwresogi os bydd rhywbeth yn mynd o'i le

**Mae technoleg gynorthwyol yn ffordd hawdd o leihau'r risg o ddamweiniau trydanol yn y cartref. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:**

- Dyfeisiadau diogelwch sy'n atal y cyflenwad dŵr, nwy neu drydan
- Diffoddwyr awtomatig ar gyfer ffyrnau trydan er mwyn atal gorboethi
- Offer trydanol â rheolyddion syml, wedi'u cynllunio i fod yn ystyriol o ddementia
- Technoleg ddeallus sy'n gallu monitro'r defnydd o drydan yng nghartref rhywun sydd â dementia, gan helpu i ganfod gwyriadau o'r drefn feunyddiol
- Synwyryddion gwres sy'n gallu anfon rhybudd i ffôn gofalwr rhag ofn y bydd tânrhybudd at ffôn gofalwr yn achos tân

## Beth arall ddylwn i edrych allan amdano?

Weithiau gall cyflwr iechyd fel dementia neu Parkinson's gynyddu'r risg o ddamwain drydanol, gan fod y cyflyrau hyn yn achosi llai o symudedd neu cyfnodau o fod yn anghofus. Os ydych chi'n poeni am berthynas neu gymydog oedrannus, cynhaliwch archwiliad gweledol cyflym o'u cartref. I'ch helpu, lawrlwythwch ein app Archwiliad Cartref Diogelwch Trydanol am ddim sy'n dweud wrthych beth i edrych amdano ym mhob ystafell o'r tŷ.

# 5 Cadw'n gynnes

**Gwyddom fod gwresogi eich cartref yn gallu bod yn ddrud, yn enwedig yn y gaeaf. Mae gwresogyddion cludadwy a blancedi trydan yn atebion poblogaidd, ond rydym yn gwybod eu bod yn dechrau nifer o danau mewn tai, yn bennaf oherwydd eu camddefnyddio.**

## Gwresogyddion cludadwy:

Mae gwresogyddion cludadwy yn achosi nifer sylweddol o danau mewn tai bob blwyddyn, ond mae rhai ffyrdd syml iawn o osgoi rhoi eich hun mewn perygl:

- Rhowch y gwresogydd ar arwyneb gwastad, ymhell i ffwrdd o unrhyw beth a allai ei fwrw drosodd
- Gwnewch yn siŵr fod y gwresogydd o leiaf metr i ffwrdd o ddefnyddiau llosgadwy, megis papur, dodrefn neu lenni Peidiwch byth â'i ddefnyddio i sychu dillad
- Peidiwch â gadael eich gwresogydd heb oruchwyliaeth na'i ddefnyddio tra byddwch yn cysgu
- Peidiwch byth â defnyddio cebl estyniad ar gyfer pweru gwresogyddion – gallant gael eu gorlwytho'n hawdd a gall achosi tanau
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn prynu eich gwresogydd oddi wrth werthwr a gwneuthurwr cydnabyddedig



## Blancedi Trydan:

Er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn defnyddio eich blanced drydan yn ddiogel:

- Gwiriwch eich blanced yn rheolaidd am arwyddion o ôl traul neu ddifrod
- Defnyddiwch y blanced dim ond at y diben a fwriadwyd:
  - Rhaid i uwch-flancedi ond cael eu gosod drosoch yn y gwely
  - Rhaid i dan-flancedi ond cael eu gosod o danoch yn y gwely
- Peidiwch â defnyddio blanced wedi'i chrychu neu un sydd o hyd wedi plygu
- Peidiwch â defnyddio potel ddŵr boeth yr un pryd â defnyddio eich blanced drydan
- Peidiwch â chyffwrdd y blanced â dwylo neu draed gwlyb
- Peidiwch â defnyddio blanced drydan ar wely addasadwy heb wneud yn siŵr nad yw'r blanced a'r cortyn wedi cael eu dal yn ei golfachau



# 6 Gwneud y gwaith

**Mae llawer o bobl yn ymgymryd â gwaith bach o amgylch y cartref er mwyn arbed amser ac arian, ond mae'n eithaf hawdd tanamcangyfrif maint y dasg a cheisio rhywbeth nad oes gennych y sgiliau na'r profiad priodol ar ei gyfer.**

## Pryd i ddefnyddio trydanwr cofrestredig

Os oes gennych unrhyw amheuon am eich sgiliau neu gymhlethdod y dasg dan sylw, rydym yn argymell eich bod yn galw ar drydanwr, sydd wedi'i gofrestru gydag un o'r cynlluniau a gymeradwywyd gan y Llywodraeth. Mae defnyddio trydanwr cofrestredig nid yn unig yn golygu y bydd eich gwaith trydanol yn cael ei wneud gan weithiwr proffesiynol cymwys a phrofiadol, ond bydd gweithdrefn swyddogol ar waith pe bai rhywbeth yn mynd o'i le.

## Cydymffurfio â'r gyfraith

Ar wahân i rai mathau o fân waith, rhaid i bob gwaith gosod trydanol gael ei gofnodi gyda rheolaeth adeiladu eich awdurdod lleol, neu ei wneud gan drydanwr sydd wedi'i gofrestru gydag un o'r cynlluniau a gymeradwywyd gan y Llywodraeth. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid i'r rhan fwyaf o waith gosod trydanol sefydlog yn eich cartref, gardd, ystafell wydr neu adeilad allanol fodloni rheoliadau adeiladu sydd, yn syml, yn golygu y dylai'r holl waith gael ei ddylunio a'i osod er mwyn amddiffyn pobl rhag tân a sioc drydan. Yn ôl y gyfraith, os ydych yn berchen ar eich cartref neu'n landlord ar eiddo, rhaid i chi allu profi bod yr holl waith trydanol yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu. Gall awdurdodau lleol wneud i berchnogion tai neu landlordiaid gymryd i ffwrdd neu newid unrhyw waith nad yw'n bodloni'r Rheoliadau Adeiladu.

Y ffordd hawsaf o sicrhau bod gwaith trydanol yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu yw defnyddio trydanwr cofrestredig. Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, byddwch yn derbyn Tystysgrif Gosod Trydanol neu Dystysgrif Mân Waith sy'n cadarnhau bod y gwaith yn cwrdd â BS 7671, a Thystysgrif Cydymffurfiaeth Rheoliadau Adeiladu sy'n cadarnhau bod y gwaith yn cwrdd â'r Rheoliadau Adeiladu. Fel arall, gall trydanwr anghofrestredig neu unigolyn nad yw'n weithiwr proffesiynol wneud y gwaith ond mae'n rhaid iddo wedyn gael ei wirio gan drydanwr cofrestredig er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio.

### Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (neu EICR)

Os ydych chi'n poeni am y trydanwaith yn eich cartref, efallai y byddwch am ystyried gofyn i drydanwr cofrestredig gynhyrchu adroddiad, a elwir yn Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol neu EICR (a elwid gynt yn Adroddiad Archwiliad Cyfnodol, neu PIR). Mae hwn yn adolygu cyflwr eich gwifrau trydanol, sy'n cynnwys asesiad cyffredinol o ddiogelwch y gwifrau, sylwadau ar ei gyflwr, a nifer o argymhellion (yn nhrefn blaenoriaeth) ar gyfer gweithredu (os oes angen) i adfer y gwifrau i gyflwr boddhaol ar gyfer defnydd diogel parhaus.

# 7 Cysylltiadau defnyddiol

I ddod o hyd i drydanwr cofrestredig neu i wirio manylion y crefftwr a argymhellir, ewch i **www.electricalcompetentperson.co.uk** os ydych yng Nghymru a Lloegr, ewch i **www.certificationregister.co.uk** os ydych yn yr Alban, neu **www.electricalsafetyfirst.org.uk/findanelectrician** os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon.

## Gweithredwyr y Cynllun

### Cymru a Lloegr:

Awdurdodir y sefydliadau canlynol gan y Llywodraeth i gofrestru trydanwyr er mwyn iddynt allu gwneud gwaith gosod trydanol domestig sy'n bodloni rhan P o'r Rheoliadau Adeiladu.

**EC Certification Ltd (yn masnachu fel Elecsa)**
**Rhif ffôn:** 0845 634 9043
**Gwefan:** elecsa.co.uk

**NAPIT Registration Ltd**
**Rhif ffôn:** 0870 444 1392
**Gwefan:** napit.org.uk

**NICEIC**
**Rhif ffôn:** 0870 013 0382
**Gwefan:** niceic.com

**Benchmark Certification Ltd**
**Rhif ffôn:** 0845 038 0022
**Gwefan:** corgiservices.com

**Sefydliad Safonau Prydain (BSI)**
**Rhif ffôn:** 0845 080 9000
**Gwefan:** kitemark.com

### Yr Alban:

Mae'r sefydliadau canlynol yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth yr Alban i gofrestru trydanwyr i wneud gwaith gosod trydan yn y cartref sy'n bodloni'r system Safonau Adeiladu.

**NICEIC**
**Rhif ffôn:** 0870 013 0382
**Gwefan:** niceic.com

**SELECT**
**Rhif ffôn:** 0131 445 5577
**Gwefan:** select.org.uk

### Gogledd Iwerddon:

Ar hyn o bryd nid oes gofynion cyfreithiol ar gyfer gwaith gosod trydanol domestig yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau canlynol yn cofrestru trydanwyr a ddylai fod yn gymwys i wneud y math hwn o waith.

**ECA**
**Rhif ffôn:** 020 7313 4800
**Gwefan:** eca.co.uk

**NAPIT Registration Ltd**
**Rhif ffôn:** 0870 444 1392
**Gwefan:** napit.org.uk

**NICEIC**
**Rhif ffôn:** 0870 013 0382
**Gwefan:** niceic.com

# 7 Cysylltiadau defnyddiol
*parhad*

**Gall y cysylltiadau canlynol roi gwybodaeth ddefnyddiol os oes angen cyngor ychwanegol arnoch:**

### Age Cymru
Nod Age Cymru yw gwella eich sefyllfa'n ddiweddarach mewn bywyd drwy wybodaeth a chyngor.

**Rhif ffôn:** 020 7820 6770
**Ebost:** webenquiries@agecymru.org.uk
**Gwefan:** www.ageuk.org.uk/cymru

### Alzheimer's Society Cymru
Mae'r Alzheimer's Society Cymru yn gweithio i wella ansawdd bywyd pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia yng Nghymru, ac mae'r Alzheimer's Society hefyd yn gweithio yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Rhif ffôn:** 020 7423 3500
**Ebost:** enquiries@alzheimers.org.uk
**Gwefan:** www.alzheimers.org.uk/about-us/wales

### Carers Trust
Mae'r Carers Trust yn gweithio i wella cefnogaeth, gwasanaethau a chydnabyddiaeth i unrhyw un sy'n byw gyda'r heriau o ofalu, yn ddi-dâl, am aelod o'r teulu neu ffrind.

**Rhif ffôn:** 0844 800 4361
**Ebost:** info@carers.org
**Gwefan:** carers.org

### Carers UK
Elusen yw Carers UK a sefydlwyd i helpu pobl sy'n gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind hŷn, anabl neu ddifrifol wael.

**Rhif ffôn:** 0808 808 7777
**Ebost:** iconadvice@carersuk.org
**Gwefan:** carersuk.org

### Cyngort ar Bopeth
Mae'n darparu cyngor di-dâl, cyfrinachol a diduedd i bawb am eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

**Gwefan:** adviceguide.org.uk

### Contact the Elderly
Mae Contact the Elderly yn elusen genedlaethol sy'n ymroi i fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd cymdeithasol ymhlith pobl hŷn.

**Rhif ffôn:** 020 7240 0630
**Ebost:** info@contact-the-elderly.org.uk
**Gwefan:** contact-the-elderly.org.uk

### Dementia UK
Mae Dementia UK yn elusen genedlaethol, sy'n ymrwymedig i wella ansawdd bywyd pawb sy'n cael eu heffeithio gan ddementia.

**Rhif ffôn:** 0845 257 9406
**Ebost:** direct@dementiauk.org
**Gwefan:** dementiauk.org

### First Stop (Elderly Accommodation Counsel)
Gwasanaeth i bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gyda'r nod o roi'r cymorth sydd ei angen arnynt i fyw mor annibynnol a chyfforddus â phosibl.

**Rhif ffôn:** 0800 377 7070
**Ebost:** info@firststopadvice.org.uk
**Gwefan:** firststopcareadvice.org.uk

### Friends of the Elderly
Elusen yw Friends of the Elderly sy'n ymroi i ddarparu cefnogaeth i bobl hŷn.

**Rhif ffôn:** 020 7730 8263
**Ebost:** enquiries@fote.org.uk
**Gwefan:** fote.org.uk

### Independent Age
Mae'n darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**Rhif ffôn:** 0800 319 6789
**Ebost:** advice@independentage.org
**Gwefan:** independentage.org

### Cymdeithas Gofal Cenedlaethol
Mae'r Gymdeithas Gofal Cenedlaethol yn cynrychioli buddiannau gofalwyr ar gyfer yr henoed, pobl â dementia, sydd ag anableddau dysgu, y rhai sydd dan anfantais gorfforol, y rhai sydd â salwch meddwl, asiantaethau plant a gofal cartref.

**Rhif ffôn:** 01634 716 615
**Ebost:** info@nationalcareassociation.org.uk
**Gwefan:** nationalcareassociation.org.uk

### Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol
Hyrwyddo lles a buddiannau pobl hŷn, fel ffordd o sicrhau urddas, parch a sicrwydd ariannol ar ôl ymddeol.

**Rhif ffôn:** 020-7383-0388
**Ebost:** info@npcuk.org
**Gwefan:** npcuk.org

### The NBFA Assisting the Elderly
Mae'n darparu cymorth i bobl hŷn ynysig, ymylol ac unig sydd ar incwm isel.

**Rhif ffôn:** 020 7828 0200
**Ebost:** info@nbfa.org.uk
**Gwefan:** nbfa.org.uk

### Parkinson's UK
Elusen cymorth ac ymchwil Parkinson's y DU.

**Rhif ffôn:** 0808 800 0303
**Ebost:** hello@parkinsons.org.uk
**Gwefan:** parkinsons.org.uk

### Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)
Cynnig gwybodaeth, cymorth a chyngor i rai sydd â nam ar eu golwg.

**Rhif ffôn:** 0303 123 9999
**Ebost:** helpline@rnib.org.uk
**Gwefan:** rnib.org.uk

### Byddin yr Iachawdwriaeth
Eglwys Gristnogol ac elusen gofrestredig byd-eang, sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol i bobl o bob oed, cefndir ac angen.

**Rhif ffôn:** (020) 7367 4500
**Ebost:** info@salvationarmy.org.uk
**Gwefan:** salvationarmy.org.uk

### Shelter
Yn cynnig cyngor arbenigol am ddim ar faterion tai i unrhyw un, yn ogystal â gwasanaethau cyfreithiol a chymorth arbenigol i'r rhai sydd angen cymorth tai manylach.

**Rhif ffôn:** 0808 800 4444
**Ebost:** info@shelter.org.uk
**Gwefan:** shelter.org.uk

### Y Gymdeithas Strôc
Yn cefnogi goroeswyr strôc, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**Rhif ffôn:** 0303 303 3100
**Ebost:** info@stroke.org.uk
**Gwefan:** stroke.org.uk

### The Silver Line
Llinell gymorth gyfrinachol am ddim sy'n darparu gwybodaeth, cyfeillgarwch a chyngor i bobl hŷn 24 awr y dydd.

**Rhif ffôn:** 0800 4 70 80 90
**Ebost:** info@thesilverline.org.uk
**Gwefan:** thesilverline.org.uk

## Dewch o hyd i fwy

I gael rhagor o wybodaeth o ran diogelwch trydanol, ewch i:

**electricalsafetyfirst.org.uk**

Electrical Safety First

Arbenigwyr diogelwch trydanol y DU

Diogelwch Trydanol yn Gyntaf yw elusen y DU sy'n ymroddedig i leihau marwolaethau ac anafiadau a achosir gan drydan. Ein nod yw sicrhau bod pawb yn y DU yn gallu defnyddio trydan yn ddiogel.

**electricalsafetyfirst.org.uk**

© Diogelwch Trydanol yn Gyntaf, Chwefror
242017ESC24

Diogelwch Trydanol yn Gyntaf
45 Great Guildford Street
Llundain SE1 0ES

E-bost **enquiries@electricalsafetyfirst.org.uk**

Elusen Gofrestredig (Cymru a Lloegr) Rhif 257376
(Yr Alban) Rhif SC039990